

Pwyllgor Diwylliant 09-02 (p.2)

Dyddiad: 1 Mai 2002

Amser: 9.00 - 12.20pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Cyflwyniad

Yn ei lyfr, *Language Revitalization*, dywed yr Athro Colin Williams fod natur ei berthynas â Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwestiwn canolog i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n gofyn i ba raddau ac ym mha ffyrdd y bydd y Cynulliad yn ceisio ymgymryd â rôl Bwrdd yr Iaith, ac ym mha ffyrdd y dylai wneud hynny, ac a ellir cyflawni swyddogaethau'r Bwrdd yn well mewn ffordd sefydliadol fwy democrataidd, neu a oes tensiwn cynhenid yn y maes rhwng cyfreithlondeb ac atebolrwydd ar y naill law ac effeithiolrwydd ar y llaw arall. Mae'n gofyn a fydd angen corff arbenigol i barhau â gwaith y Bwrdd neu a allai un o bwyllgorau'r Cynulliad ei wneud trwy weithio'n uniongyrchol â'r gwasanaeth sifil. Mae'r Athro Williams yn dadlau yn erbyn trosglwyddo cyfrifoldebau Bwrdd yr Iaith i'r Cynulliad. Dywed y byddai'n well cryfhau swyddogaeth gydlynu Bwrdd yr Iaith a fyddai yn milwrio yn erbyn y darnio sydd wedi tarfu ar ymdrechion blaenorol i hyrwyddo'r iaith.

Bu'r berthynas rhwng y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith a'r rolau y maent wedi'u mabwysiadu ymhlith prif bynciau trafod yr adolygiad hwn. Mae'r papur hwn yn ystyried ac yn crynhoi'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr adolygiad ar y rolau hyn. Bydd yn ystyried rolau:

- y Cynulliad
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- llywodraeth leol
- y Mentrau Iaith
- cyrff eraill

Dylid darllen y papur ochr yn ochr â phapur safbwynt y Cadeirydd (CC-5-02(p.2a)) a'r papur yn crynhoi'r dystiolaeth a ddaeth i law ar faterion cynllunio iaith (CC-6-02(p.1)).

Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL

Mynegodd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr farn ynghylch rôl y Cynulliad, Bwrdd yr Iaith a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru o ran diogelu dyfodol y Gymraeg. Nid oes modd crybwyll pob un o'r safbwyntiau yn y crynodeb hwn, ond ceir ymgais isod i restru rhai o'r prif awgrymiadau.

Adnoddau – Cafwyd galwadau o sawl tu ar y Cynulliad i fuddsoddi cryn dipyn yn fwy o arian cyhoeddus yn y Gymraeg (er enghraifft, galwodd un grwp am wariant uniongyrchol o rhwng £100m a £200m y flwyddyn). Llwyddodd un ymatebydd i gyfleu teimladau llawer iawn o'r cyfranwyr pan ddywedodd bod yn rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol glustnodi adnoddau sy'n gymesur â'i nod o sefydlu cenedl ddwyieithog.

Arweinyddiaeth – Pwynt arall a ategwyd dro ar ôl tro oedd bod angen i'r Cynulliad roi arweinyddiaeth wleidyddol glir yn unol â'r hyn a roddir gan lywodraethau Gwlad y Basg a Chatalunya i'w hieithoedd brodorol. Roedd yn bwysig hefyd bod y Cynulliad yn cyfleu negeseuon cadarnhaol ynghylch defnyddio'r Gymraeg. Dywedodd un cyfrannwr mai gwerth y Gymraeg yn y Cynulliad yw pryd, ble a sut y mae defnydd y Cynulliad o'r Gymraeg yn anfon negeseuon cadarnhaol at y rhai sy'n gwneud dewisiadau ynghylch iaith. Roedd un awdurdod lleol am i'r Cynulliad ymrwymo i gynnal ymgyrch hir dymor i hybu ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r Gymraeg, tra roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol o'r farn nad yw'r Cynulliad yn hyrwyddo Cymru fel gwlad ddwyieithog ac iddi ei hiaith draddodiadol.

Y Gymraeg fel thema drawsbynciol – Argymhellodd sawl grwp y dylai'r Cynulliad drin yr iaith fel thema drawsbynciol yn yr un modd ag yr ymdrinnir â chyfle cyfartal ac y dylid sefydlu Pwyllgor Sefydlog i'r perwyl hwnnw. Ochr yn ochr â hyn, galwyd am sefydlu Uned yn y Cynulliad i fonitro datblygiad yr iaith ac am roi statws trawsbynciol i'r Gymraeg wrth weithredu Cronfeydd Strwythurol Ewrop, yn enwedig o ran Amcan 1. Galwyd hefyd am sefydlu Pwyllgor Rhanbarth ar gyfer y cadarnleoedd Cymraeg.

Adleoli – Galwodd lleiafrif bach ond arwyddocaol ar y Cynulliad ac

asiantaethau neu gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i symud eu pencadlysoedd o Gaerdydd i'r cadarnleoedd.

Cydlynu – Galwodd sawl mudiad ar y Cynulliad i sicrhau bod cyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, y Bwrdd Croeso, Cyngor y Celfyddydau, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac ati'n cynnwys adfywio'r Gymraeg yn nod yn eu strategaethau a'u cynlluniau gweithredol er mwyn sianelu un ymrwymiad i greu Cymru gwirioneddol ddwyieithog. Aeth un mudiad gam ymhellach drwy alw ar y Cynulliad i feithrin cysylltiadau parhaol â gwledydd a rhanbarthau eraill a chanddynt arbenigedd ym maes cynllunio ieithyddol.

BWRDD YR IAITH GYMRAEG

Cychwynnodd yr adolygiad ychydig cyn cyhoeddi argymhellion yr adolygiad pum mlynedd ar

Fwrdd yr Iaith (a gynhaliwyd gan Newidiem). Dylai unrhyw drafod ar rôl Bwrdd yr Iaith yn y dyfodol ddefnyddio'r argymhellion hyn yn fan cychwyn. Gwnaethpwyd 26 o argymhellion; mae'r rhestr lawn ym mhapur y Pwyllgor CC-13-01(p.4). Rhestrir isod rai o'r argymhellion pwysicaf:

- Bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn adolygu ei strategaeth yng ngoleuni adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o'i strategaeth ei hun ar gyfer yr iaith Gymraeg ac yn cynhyrchu dogfen gynllunio ddiwygiedig sy'n nodi targedau penodol dros gyfnodau o bum mlynedd ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau a chymunedau arbennig.
- Bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwahodd cyfraniad gan y bobl tuag at ddatblygu polisi a strategaeth drwy gynnwys sefydliadau partner a chynrychiolwyr sectorau allweddol yn y broses ddatblygu.
- Bod Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol, wrth iddo adolygu ei bolisi, yn manteisio ar y cyfle hwn i ystyried datblygu strategaeth gynhwysol ar gyfer y Gymraeg sy'n ystyried effeithiau cyrff cyhoeddus eraill ar yr iaith, sy'n amlinellu sut mae cydlynu gweithredoedd o blaid yr iaith ac sy'n nodi mecanweithiau i ddod â'r iaith fwyfwy i brif ffrwd gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru.
- Y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg drafod â'r Cynulliad Cenedlaethol i ba raddau y gall barhau i gychwyn a monitro cynlluniau iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus ac archwilio dulliau o ddatganoli agweddau ar y broses fonitro i gyrff archwilio eraill priodol.
- Y dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg gydweithio'n agos i ddatblygu diwylliant cadarnhaol o gefnogaeth i'r Gymraeg ym mhob maes gweinyddu a datblygu cyhoeddus.

Roedd Newidiem hefyd yn argymhell y dylai Bwrdd yr Iaith ystyried sut i gryfhau ei bresenoldeb rhanbarthol yng Nghymru. O'r ychydig ymatebwyr a soniodd yn benodol am Fwrdd yr Iaith, roedd sawl un yn gytûn bod presenoldeb o'r fath yn hanfodol er mwyn i'r Bwrdd allu ymwneud â phroses paratoi cynlluniau datblygu a strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Roedd datblygu a chryfhau partneriaethau hefyd yn un o'r meysydd allweddol a nodwyd ar gyfer Bwrdd yr Iaith. Dywedodd un o'r ymatebwyr na all Bwrdd yr Iaith sicrhau ar ei ben ei hun bod modd cynnal yr iaith. Rhaid i'r Bwrdd annog ei bartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a sicrhau y caiff yr arian sydd ar gael ei flaenoriaethu a'i dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddyfodol yr iaith. Cafwyd cryn dipyn o sylwadau ynghylch ariannu'r Bwrdd, ac roedd sawl un o'r ymatebwyr o'r farn bod angen rhoi mwy o arian ac adnoddau i'r Bwrdd er mwyn iddo allu bod yn gwbl effeithiol.

Cafwyd sylwadau hefyd ar gwmpas pwerau Bwrdd yr Iaith ac ar ddiffiniad ohonynt. Dywedodd un ymatebydd fod yn rhaid diffinio pwerau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn glir er mwyn iddo allu rhoi mwy o gymorth i gyrff wrth iddynt baratoi eu cynlluniau iaith.

O ran rôl uniongyrchol Bwrdd yr Iaith, dywedodd rhai y dylai ganolbwyntio yn ei rôl ganolog ar gynllunio ieithyddol a sicrhau y cydymffurfir â Deddf 1993.

Prin oedd yr ymatebwyr a alwodd am ddiddymu neu ad-drefnu'r Bwrdd, er i un ohonynt alw am awdurdod dros ddiwylliant Cymreig a'r Gymraeg yn ei le.

LLYWODRAETH LEOL

Ni chafwyd llawer o sylwadau penodol am rôl llywodraeth leol o ran cefnogi'r Gymraeg, er i'r Pwyllgor dderbyn tystiolaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig oddi wrth sawl awdurdod lleol. Cafodd rhai awdurdodau lleol, megis Gwynedd, Caerffili a Rhondda Cynon Taf, eu canmol am eu hymdrechion i hyrwyddo'r iaith yn fewnol ac i sicrhau nad oedd pobl yn cael eu rhwystro rhag ei defnyddio. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi darparu'r fframwaith mwyaf cynhwysfawr ar gyfer gweithredu o ran y Gymraeg yn y gymuned. Ymhlith y mesurau a'r mentrau y mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi'u rhoi ar waith y mae:

- Sicrhau bod y Gymraeg yn nodwedd ganolog o bortffolio aelod allweddol o'r Cabinet
- Sefydlu rhwydwaith o fentrau iaith lleol yn y sir
- Paratoi Cynllun Datblygu'r Gymraeg sy'n annog adrannau a gwasanaethau penodol i fynd ati i feithrin cysylltiad â siaradwyr Gymraeg.

Awgrymodd sawl ymatebydd fod defnyddio Cynlluniau Datblygu yn allweddol i hyrwyddo a chefnogi'r iaith ar lefel y sir.

Yn fwy cyffredinol, dywedodd rhai y dylai'r awdurdodau lleol fabwysiadu amcanion y Cynulliad i greu Cymru ddwyieithog a chynnwys y manylion hyn yn eu strategaethau cymunedol.

Yn ei bapur safbwynt (CC-5-02(p.2a)), nododd y Cadeirydd fod rôl benodol gan awdurdodau lleol i'w chwarae wrth wireddu'r syniad o Gymanfaoedd Bro (mentrau lleol).

MENTRAU IAITH

Wrth werthuso Menter Cwm Gwendraeth, daeth yr Athro Colin Williams a Dr Jeremy Evas i'r casgliad ei bod braidd yn gynnar i asesu effaith lawn y mentrau iaith wrth geisio adfywio'r Gymraeg yn eu hardaloedd, ond bod cryn botensial iddynt. Hyd yma, hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gychwyn a chynnal strategaeth adfywio ar lefel leol. Mae'r Mentrau yn debygol o fod yn allweddol yng Nghymru i sefydlogi darnio ieithyddol mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o siaradwyr Gymraeg.

Yr oedd llawer o'r rheini a soniodd yn ystod yr adolygiad am y Mentrau Iaith yn cytuno y gallent gael effaith bositif ar ddatblygu'r iaith yn y gymuned. Dywedodd un ymatebydd nad oedd amheuaeth bod y Mentrau wedi cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ac wedi llunio casgliad o arferion da dros y blynyddoedd. Pwysleisiwyd y ffaith bod modd i'r Mentrau roi mwy o gyfle i bobl ddefnyddio'r iaith a chodi proffil yr iaith. Roedd Mentrau Iaith Cymru o'r farn mai'r hyn y byddai'n ei wneud yn y dyfodol fyddai cryfhau ei rôl a'i statws fel corff cydlynu cenedlaethol i'w alluogi i weithredu fel corff ymbarél sy'n rhoi cymorth, arweiniad a chyngor ar bob lefel. Gallai hefyd ddatblygu partneriaethau a gweithredu'n strategol ar lefel genedlaethol.

CYRFF NEWYDD

Roedd galw mawr am sefydlu cyrff newydd i gefnogi'r Gymraeg a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Galwodd sawl un ar y Cynulliad i sefydlu comisiwn annibynnol i edrych ar yr argyfwng yn y cadarnleoedd Cymraeg ac awgrymu atebion. Awgrymodd un grwp y dylid sefydlu **cyngor statudol etholedig** i gynrychioli buddiannau'r cymunedau Cymraeg. Galwyd hefyd am **Awdurdod Datblygu Economaidd** yn arbennig ar gyfer y cymunedau Cymraeg, ac ategwyd hynny gan gyrff eraill sy'n gweithio ym maes yr economi.

Awgrymwyd bod angen **gweithgor iaith cenedlaethol**, a fyddai'n cynnwys cyrff cenedlaethol sy'n gweithio ym maes iaith dan gadeiryddiaeth Bwrdd yr Iaith ac wedi'i ariannu gan y Cynulliad. Roedd un academydd nodedig am weld y Cynulliad yn buddsoddi mewn nifer o sefydliadau newydd i gefnogi'r iaith, yn eu plith **Ganolfan Safoni Termau Genedlaethol, Canolfan Cynllunio Ieithyddol, Canolfan Genedlaethol ar gyfer Addysgu'r Gymraeg, Bwrdd Ymgynghorol ar Ddwyieithrwydd** - i astudio effaith newidiadau cymdeithasol-economaidd gan gynnwys cynllunio rhanbarthol, yr economi, trafnidiaeth, cyfathrebu, y cyfryngau a datblygu rhyngwladol - a **Chanolfan Adnoddau Dwyieithog** i baratoi meddalwedd i fyd busnes.

Awgrymodd Mentrau Iaith Cymru y dylid sefydlu Pwerdy – Corff Cenedlaethol dros yr Iaith a Datblygu Economaidd – i hybu'r economi, addysg a hyfforddiant, datblygu cymunedol a'r Gymraeg. Byddai corff o'r fath yn datblygu syniadau, yn hybu ymchwil ac asesiadau o angen, yn ariannu cynlluniau blaengar, yn annog mentergarwch, yn rhoi cyngor a chymorth i fusnesau lleol, ac yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd polisiâu datblygu economaidd a defnydd tir ar y Gymraeg.

Yn ei bapur safbwynt, cefnogodd Cadeirydd y Pwyllgor syniad y Pwerdy a rhagwelodd y

byddai corff o'r fath yn adrodd yn uniongyrchol wrth Fwrdd yr Iaith a fyddai'n goruchwylio'i waith ac yn ei reoleiddio. Byddai Bwrdd yr Iaith hefyd yn goruchwylio'r gwaith o'i sefydlu dros gyfnod cychwynnol o bum mlynedd, tra byddai'r Mentrau Iaith yn darparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r corff a rhannau unigol y Pwerdy yn cyfrannu eu cyllidebau eu hunain.

RHAI MATERION A CHWESTIYNAU I'R PWYLLGOR EU HYSTYRIED

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y materion a'r cwestiynau a ganlyn:

- **Y Cynulliad**

A yw'r Pwyllgor am wneud yr argymhellion a ganlyn:

- Dylai'r Cynulliad arwain y ffordd yn strategol a phennu polisi ar gyfer yr iaith, gan bwysleisio rôl Bwrdd yr Iaith yn ogystal â chyfraniad pwysig cyrff cyhoeddus eraill o ran datblygu'r iaith
- Y Gymraeg yn thema drawsbynciol yn y Cynulliad (gan gynnwys sefydlu uned strategol ar lefel uchel a phwyllgor trawsbynciol yn y Cynulliad)
- Sicrhau bod Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn cynnwys camau positif o ran yr iaith yn eu cynlluniau strategol a gweithredol
- **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**
- Beth yw barn y Pwyllgor am rôl y Bwrdd yn y dyfodol? Beth fyddai ei flaenoriaethau? A ddylai'r Bwrdd fod yn gyfrifol am gynllunio'r iaith yn ogystal â chadw'i rôl reoleiddio?
- **Llywodraeth Leol**
- A yw'r Pwyllgor o'r farn bod Cynlluniau Datblygu'r Gymraeg yn ddefnyddiol i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg ar lefel y sir? A ddylai mwy o awdurdodau baratoi eu strategaethau eu hunain, yn yr un modd â Chyngor Sir Caerfyrddin?
- **Mentrau Iaith**
- A yw'r Pwyllgor am gryfhau rôl y Mentrau?
- **Cyrff newydd**
- Beth yw barn y Pwyllgor am y cyrff newydd arfaethedig a awgrymwyd ym mhapur safbwynt y Cadeirydd, sef y Pwerdy a'r Cymanfaoedd Bro.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Ebrill 2002